**LC1117**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

# Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffoedd (Cymru) 2005

Mae’r Rheoliadau yma’n rhoi Penderfyniad y Comisiwn 2000/532 ("Penderfyniad y Rhestr Gwastraffoedd") ar waith yng Nghymru, sef penderfyniad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod rhestr o wastraffoedd yn cael ei llunio. Mae’r rhestr yn cael ei hadnabod fel y "Rhestr Gwastraffoedd" ac mae wedi disodli Catalog Gwastraffoedd Ewrop. Mae’r Rhestr Gwastraffoedd yn darparu ar gyfer dosbarthu gwastraffoedd ac, o’u darllen ar y cyd â Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005, mae’n pennu a yw gwastraff yn wastraff peryglus neu beidio.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i graffu ar ddrafftiau cynharach o’r Rheoliadau yma. Gan hynny, mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad wedi’u datrys a does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu a fynegwyd i’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Mehefin 2005**